

Gwerthusiad Beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu ac addysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar astudiaeth achos critigol a arsylwyd.

O fewn waith academiaidd yn ymwneud ag addysg, gwelir niferoedd o feysydd a all deillio o ddigwyddiadau critigol. Yma, o ganlyniad i ddigwyddiad critigol a arsylwyd byddaf yn adnabod camau dysgu a gall ddilyn. O ran diffiniad o ddigwyddiad critigol, rhannir David Tripp wybodaeth hollbwysig. Nid ydynt, yn eiriau Tripp yn ddarnau aur sy'n aros i gael i ddarganfod, ond mae achosion critigol yn cael i greu wrth iddynt ddadansoddi unrhyw sefyllfa'n gritigol (Tripp, 1993). Yn cadw'r safbwynt yma yn feddwl, wrth arsylwi fe all nifer o feysydd ymchwil codi, yn dibynnu ar ganfyddiadau'r arsylwr. Drwy feddwl yn gritigol yma, fe fyddai'n dadansoddi digwyddiad critigol fy hun, yn cyfeirio at waith academyddion cyn adfyfrio'n gritigol wrth awgrymu camau nesaf. Mae astudiaeth digwyddiadau critigol yn galluogi i ni adfyfrio ac o ganlyniad i hyn, yn helpu ni ddatblygu'n broffesiynol. O fewn maes addysg yma, mae adfyfrio'n holl bwysig gan fod athrawon hefyd yn dysgu ac yn datblygu ei strategaethau. Yn deillio o'r digwyddiad, byddaf yn canolbwyntio ar waith ynglŷn a'r iaith Gymraeg ac ymddygiaeth. Mae'r materion yma yn berthnasol ym mhob ysgol yng Nghymru ac yn galluogi ymchwil effeithiol gan ei fod yn gyfoethog a gwaith llenyddol ac adroddiadau llywodraethol.

Mae'r ysgol yng nghwestiwn yn un Uwchradd, gyfrwng Cymraeg. Ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd ddiweddaraf, roedd yna 780 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol, yn gweithio ar lefelau academiadd amrywiol (My Local School, 2019). Yn nhermau'r iaith Gymraeg, dywed adroddiad ESTYN (2019) fod dim ond 10% o'r disgyblion yn dod o deuluoedd Cymraeg iaith gyntaf, ond er hynny mae gan fwyaf o'r disgyblion afael hyderus arni, yn feddwl ei fod yn gallu cyfathrebu'n rhugl (Estyn, 2019). O ran cefndir cymdeithasol y disgyblion, mae 30% ohonynt yn byw mewn 20% o'r ardaloedd fwyaf difreintiedig yng Nghymru (Estyn, 2019). O ganlyniad i hyn, mae 10.6% o'r disgyblion yn derbyn prydiau bwyd am ddim (Estyn, 2019). Er bod nifer o deuluoedd yr ardal yn wynebu caledion, mae'r ysgol yng nghwestiwn wedi parhau i lwyddo'n academiaidd. Mae'r adroddiad ESTYN (2019) yn adnabod safonau uchel yr ysgol, nid yn unig o ran safonau'r disgyblion ond safonau'r dysgu yn ogystal. Mae profiadau dysgu'r disgyblion hefyd yn cael i ystyried yn ardderchog. Tra bod yr ysgol yn dangos nifer o rinweddau, mae hi hefyd yn ysgol arloesi cwricwlwm. Mae'r ysgol yn gweithio gydag ysgolion eraill wrth iddynt geisio gweithredu argymhellion yr athro Donaldson o fewn 'Dyfodol Llwyddiannus'. Gyda drafft y cwricwlwm newydd nawr yn bodoli, mae'r ysgol ar flaen y gad wrth ystyried y cwricwlwm newydd ac yn sicrhau fod anghenion ddisgyblion yn cael i gyrraedd. Yn barod, wrth arsylwi gwersi, roedd e'n hawdd adnabod rhai o argymhellion Donaldson mewn effaith, megis pwyslais ar waith trawsgwricwlaidd. Erbyn i'r

cwricwlwm newydd gyrraedd, fe fydd yr ysgol yma yn le da o ran sicrhau gweithrediad ei argymhellion.

Mae arsylwi fel pwnc, wedi denu sylw oddi wrth nifer o weithwyr academiaidd. Mae gwaith Louis Cohen, Lawrence Manion a Keith Morrison (2017) yn treiddio'n drwm i fethodoleg arsylwi. Dywed yr awduron fod yna nifer o elfennau i arsylwi, ble all arsylwyr canolbwyntio ar 'feysydd' wahanol. Yn bennaf, canolbwyntiais ar ymddygiad ddisgyblion a'i berthynas a'r iaith Gymraeg. Dywed yr awduron fod tystiolaeth arsylwi yn bennaf yn 'gymylog', ac fydd arsylwir gwahanol yn adnabod 'tystiolaeth' gwahanol gan ei fod yn canolbwyntio ar bethau wahanol o fewn y dosbarth dysgu (Cohen, Manion a Morrison, 2017). Allai gysylltu hyn i waith arsylwi fy hun, gan fy mod yn arsylwi o fewn ysgol gyfrwng Gymraeg, yn barod roedd gen i ddiddordeb mewn defnydd ddisgyblion o'r iaith o fewn y dosbarth. Wrth gynllunio fy nghwaith arsylwi penderfynais fy mod eisiau canolbwyntio ar hun, ac mae'r awduron ei hun yn argymhell fod rhaid meddwl am beth i arsylwi arno cyn dechrau'r broses (Cohen, Manion a Morrison, 2017).

Adnabyddais cyn arsylwi fod yna nifer o fodelau yn bodoli. O fewn eu hastudiaethau mae Patricia a Peter Adler (1994) wedi adnabod nifer o'r modelau. O fewn waith arsylwi fy hun, ddefnyddiais beth mae Adler ac Adler (1994) yn disgrifio fel 'the noninterventionism approach'. Roeddwn yn awyddus i ddim ymdrin neu tarfu ar y disgyblion ar unrhyw adeg i sicrhau fy mod yn casglu data hollol gynrychiadol o ddosbarth bob dydd. Fel dywed Adler ac Adler (1994), mae yna fodelau arsylwi gwahanol yn bodoli, megis ble mae arsylwyr yn casglu gwybodaeth drwy ddulliau fel holiaduron gan ei fod yn rhyngweithio a'i bynciau. Fe fyddde'r dull yma yn ddefnyddiol o fewn achlysuron gwahanol ond yn fy achos i, roeddwn yn awyddus i adael digwyddiadau parhau heb ymyrraeth.

Er fy mod awyddus i ddim ymrru ar y disgyblion, mae rhaid adnabod galle bresenoldeb arsylwyr gael effaith ar ei bynciau. Mae David Oswald (2014, p. 53) wedi adnabod bod 'Yr effaith Hawthorne', yn aml wedi creu problemau i arsylwyr. Mae'r term yma yn deillio yn wreiddiol o waith Henry Landsberger yn 1958, wrth iddo arsylwi ar weithwyr gwaith Hawthorne yn Chicago. Yn syml, ddiffiniad y term yma yw bod ymddygiad bobl yn newid, yn priodoli o'r faith fod rhywun yn gwylio neu'n astudio'i weithredoedd (Oswald, 2014, p.53). Credaf fod hyn yn ffactor bwysig wrth arsylwi grŵp o blant, boed hyn yn y sector gynradd neu uwchradd. Er hyn, o brofiad fy hun credaf fod y disgyblion yn ddigon hamddenol er fy mhresenoldeb a chredaf fod fy nghanfyddiadau yn rhai cynrychiadol gan fy mod wedi adnabod nifer o achosion critigol gwahanol wrth arsylwi, fel a welir yn yr atodiadau.

O ran cyflwyniad i 'Ddyfodol Llwyddiannus', mae adroddiad yma yn adolygu'r cwricwlwm cenedlaethol yn lle yn bresennol a hefyd trefniadau asesu o'r cyfnod sylfaen hyd at gyfnod

allweddol 4. Fel mae Donaldson (2015) yn dweud ei hun, mae ei chynigion yn rhai radical ac yn eang wrth ystyried addysg yn y dyfodol. O fewn yr adroddiad mae Donaldson (2015) yn cyflwyno pedwar pwrpas i'r cwrwllwm newydd. Mae rhain wedi' fynegi yn nhermau beth ddylai blant anelu i fod, a beth ddylent gyflawni trwyddo'i addysg ysgol. O fewn y pwrpasau yma, dywed Donaldson (2015) ddylai plant fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol a all gyfathrebu mewn nifer o ffurfiau gwahanol, drwy gyfrwng Saesneg a Chymraeg. Mae'r pwrpas yma yn clymu i mewn i'r digwyddiad critigol byddaf yn astudio drwy gydol y gwaith yma.

O fewn bolisau'r ysgol, yn debyg i Donaldson, mae yna bwyslais sylweddol ar ddefnydd yr iaith Gymraeg. O fewn tair prif egwyddor yr ysgol mae gan yr iaith Gymraeg bresenoldeb blaenllaw (Prospectws Ysgol X, 2019). Nid yn unig mae'r ysgol yn argymhell i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith ym mhob achos ond maent hefyd yn argymhell fod gan y disgyblion balchder yn yr iaith ei hun ond hefyd ddathlu fod ganddynt sgiliau dwyieithog (Prospectws Ysgol X, 2019) Yn ystod y diwrnod ysgol, mae'r ysgol yn awyddus i wobrwyo defnydd y Gymraeg. Ar draws amryw o wersi fe ddarparwyd athrawon 'clod Cymraeg' a hefyd cynnwys enwau ddefnyddwyr y Gymraeg ar 'fwrdd falchder' y dosbarth dysgu. Er bod yr ysgol yn ceisio hybu'r iaith Gymraeg ar bob achlysur, arsylwais fod nifer cyfyng o ddisgyblion yn wynebu caledion wrth gyfathrebu ac yn weld e'n anodd mynegi ei hun drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol i'r digwyddiad critigol arsylwais arno. Fe ddigwyddodd y digwyddiad o fewn wers Daearyddiaeth i ddisgyblion flwyddyn wyth, gallu cymysg. Yn syth sylweddolais fod niferoedd o ddisgyblion o fewn y dosbarth yn defnyddio'r iaith Saesneg ac fe barhaodd problemau ieithyddol drwy gydol y wers. Gyflawnwyd y disgyblion tasg ble roedd rhaid iddynt ystyried llun gweledol ar flaen y dosbarth ac ysgrifennu ei chanfyddiadau ohono yn ysgrifenedig. Gan fod dim rhestr o dermau allweddol neu ffrâm ysgrifennu ar gael i'r disgyblion, fe welais dau ddisgybl (byddaf yn alw rhain yn ddisgyblion 1 a 2) yn siarad bob gair drwy gyfrwng y Saesneg ac wynebu caledion yn fynegu ei hun yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn aml gofynnodd disgybl 1 am gymorth o'r athro yn ymwneud a thermau perthnasol Cymraeg, cyn i'r athro ei hun tynnu pawb yn y dosbarth oddi ar y dasg i fynd trwyddo dermau allweddol Cymraeg. Fe wnaeth yr esboniad yma gymryd ychydig o amser yn meddwl, erbyn diwedd y wers dim ond rhif cyfyng o ddisgyblion wnaeth gyflawni'r dasg yn llawn. Er hyn fe wnaeth yr athro adnabod mantais i'w esboniad, fod y disgyblion wedi ymgysgu a thermau newydd Cymraeg. O ganlyniad i hyn, fe ddarparwyd yr athro sticeri 'clod Cymraeg', yn adnabod, er ni chyflawnodd nifer o'r disgyblion y dasg, fe wnaethent ddatblygu sgiliau iaith yn ystod y wers. Wrth dderbyn y clodi yma, fe ddangosodd

ddisgyblion 1 a 2 wir hapusrwydd a thystiolaeth fod nhw'n gallu, fel yn eiriau'r Athro Donaldson (2015) ddatblygu mewn i bobl ifanc uchelgeisiol.

Mae'r digwyddiad critigol uchod wedi arwain i mi ymchwilio i'r iaith Gymraeg a'i weithrediad o fewn addysg. Gwelwn nifer o ysgrifenydd academaidd yn pwysleisio'i phwysigrwydd o fewn addysg yng Nghymru. I ailymweld a phwynt blaenorol, mae'r Athro Donaldson (2015), drwy gydol 'Dyfodol Llwyddiannus', yn dangos gweledigaeth, ble nid yn unig mae'r iaith Gymraeg yn bresennol o fewn ysgolion ond yn ffynnu yn y dosbarth. Gyda'r iaith Gymraeg yn parhau i fod darn allweddol o addysg yng Nghymru, fel o fewn y digwyddiad critigol a ddisgrifir, fe fydd pobl ifanc yn parhau i ddatblygu sgiliau iaith fydd o les iddyn nhw du fewn a thu allan i'r ysgol. Fel dywed Donaldson (2015), mae dwyieithrwydd yn gryfder i'r system addysg yng Nghymru a chytunaf yn llwyr gyda Donaldson yma. Yn gyffredinol yn ystod fy amser yn arsylwi o fewn yr ysgol, gan fod nifer o ddisgyblion yn defnyddio'r Saesneg, credaf ni fod pobl ifanc yn sylweddoli pa mor fuddiol mae'r iaith Gymraeg iddynt yn bresennol ac yn y dyfodol.

Yn debyg i Donaldson, ac fel byddwn yn erfyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd o fewn ei hadroddiadau yn weld yr iaith Gymraeg yn amhrisiadwy. Mae ei hadroddiad 'Cenhadaeth ein Cenedl', (2017) sydd yn taniannellu sut y bydd system ysgolion yng Nghymru yn symud ymlaen i sicrhau cwricwlwm newydd effeithiol, yn gyfoethog a'r iaith Gymraeg. Mynnir yr adroddiad fod y cyfle i addysg gyfrwng Gymraeg ar gael i bawb ac i'r bobl ifanc sydd yn dewis y cyfrwng yma, fyddent yn derbyn y gefnogaeth gorau bosib i sicrhau ei fod yn rhugl yn y Gymraeg yn gadael yr ysgol (Llywodraeth Cymru, 2017, p. 18). Credaf taw dim ond gyda'r fath o ymrwymiad yma o'r llywodraeth fe fydd ddisgyblion yn parhau i ddatblygu ei sgiliau iaith. Er ar bapur mae'r Llywodraeth yn dangos yr ymrwymiad yma at yr iaith, mae angen yr adnoddau i weithredu ei gynlluniau. Credaf, yn holl bwysig i barhad addysg gyfrwng Gymraeg yw'r athrawon ei hun. Mae'r llywodraeth wedi adnabod bod yna ddiffyg athrawon a'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. O fewn ei hadroddiadau maent yn gobeithio codi'r nifer o athrawon all ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031 (Llywodraeth Cymru, 2017, p. 7). Heb darddiad athrawon gyfrwng Gymraeg, ni fydd cynlluniau uchelgeisiol y llywodraeth i gael cwricwlwm effeithiol Cymraeg yn bosib yn fy marn i. Ar lawr yr ystafell dosbarth, mae'r addysgwyr yn holl bwysig a heb fod nhw'n gwneud brasgampau yn yr iaith Gymraeg, ni fydd y disgyblion yn gwella chwaith.

Mae'n hynod bwysig astudio weledigaethau'r llywodraeth ynglŷn a'r iaith ond eto mae rhaid hefyd canolbwyntio ar safonau iaith y disgyblion. Mae'r Athro Sioned Davies, er enghraifft wedi cyflwyno astudiaeth ynglŷn a'r pwnc Cymraeg ail iaith. Mae canfyddiadau Sioned Davies (2013) yn ddigon i godi pryder. Dywed fod yna lai o arfer da mewn dysgu Cymraeg

fel ail iaith o gymhareb i bynciau eraill (Davies, 2013 p. 3.) Yn ôl ei waith ymchwil, dywed Sioned Davies (2013) fod hyn yn digwydd o ganlyniad i ddiffyg hyder athrawon, ac ni fod nifer ohonynt efo'r gallu i addysgu Cymraeg ar lefel briodol. Mae pryderon o'r fath yma yn wneud cynlluniau Llywodraeth Cymru yn gwbl gyfiawnhaol. Os dyw athrawon ei hun yn ddiffyg hyder wrth addysgu'r Gymraeg, nid oes hollol obaith i'r dysgwyr lwyddo. O fewn waith ymchwil annibynnol, mae gwaith Robert Hill (2013) , fel Sioned Davies wedi pwysleisio gwendid ddisgyblion o fewn Cymraeg fel ail bwnc. Mae canfyddiadau Hill (2013) yn hollol ddamniol, dywed dim ond mewn rhyw un ysgol ymhob deg y mae disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog wrth gaffael sgiliau Cymraeg ail iaith (Hill, 2013, p. 20). Mae gwaith Davies ac Hill yn awgrymu fod hen drefniadau ddim yn gweithio. Ar draws y blynyddoedd mae ymrwymiad ysgolion a'r llywodraeth wedi bod yn gyson wrth ystyried yr iaith Gymraeg ond mae canfyddiadau'r ddau ymchwilwyr uchod yn pwysleisio, yn nhermau ail iaith, fod y newidiadau fydd yn dod gyda'r cwricwlwm newydd yn hollol angenrheidiol.

O ganlyniad i'r digwyddiad critigol arsylwais arno, maes ymchwil byddaf hefyd yn edrych arno yw'r mater o ymddygiad, a'r system o wobrwyo disgyblion. Ynglŷn a'r digwyddiad critigol, fe ddangosodd ddisgyblion wir hapusrwydd wrth iddynt dderbyn 'clod Cymraeg' am ddefnyddio'r iaith yn y pen draw a dysgu termau allweddol Daearyddol newydd. Yn ôl Ruth Payne (2015, p. 484), gyda'r fabwysiadid o syniadau 'ymddygiadol' yn y chwechdegau, mae'r system o wobrwyo disgyblion wedi bod yn holl bresennol ers hynny . Wrth arsylwi, sylweddolais yn syth fod yr ysgol yn gwestiwn yn credu'n gryf yn ei system wobrwyo, ac bod y disgyblion ei hun hefyd yn credu yn y system. Credaf fod system wobrwyo o'r fath yn lle i gymell disgyblion i wella, ac o fewn fy nigwyddiant gritigol, fe lwyddodd y nod yma, gan fod disgyblion yn gwybod fod y system 'clod Cymraeg' yn bodoli.

Er bod system wobrwyo yn gweithio yn yr achos arsylwais arno, gwelwn nifer o ysgrifenydd academaidd yn anghytuno ar ei effeithrwydd. Gwelwn Ann Shreeve (2006, p. 254) yn cwestiynu systemau wobrwyo. Dywed, yn ei barn hi, dyle athrawon da fod yn gallu cymhellu ddisgyblion heb system wobrwyo ac fe ddaw hyn o ganlyniad i berthynas dda rhwng dysgwyr ac addysgwyr a chynllun gwers dda (Shreeve, 2006). I raddau mae sail i eiriau Shreeve, ond eto credaf fod yna le i systemau wobrwyo. Credaf ei fod yn wir fod athrawon da ei hun yn gallu gymhellu ddisgyblion ond eto, fel yn yr achos mae, mae system wobrwyo yn symbol o lwyddiant ddisgyblion ac yn dangos cynnydd o fewn y dosbarth. Nid yn unig Shreeve sydd wedi cwestiynu effeithrwydd systemau wobrwyo. Mae Alfie Kohn (1999) yn cwestiynu effeithrwydd hyr tymor gwobrwyo plant. Yn syml, fod gwobrwyo i reidrwydd dim ond yn gweithio yn byr dymor, ac i sicrhau fod patrymau ymddygiad yn newid, fydd rhaid i'r gwobrwon ddod yn aml (Kohn, 1999). Yn achos fy nigwyddiad critigol, fe all y safbwynt yma gysylltu. Fe fyddde'r clod Cymraeg gwir yn effeithiol yn fir tymor, ond erbyn i ddisgybl 1 a 2

adael y dosbarth mae rhaid cwestiynu, a fydd nhw'n parhau i ddefnyddio'r iaith yn wersi eraill neu ar y buarth. Gan fod mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio'r Saesneg o gwmpas yr ysgol, fyddai'n tybio taw Saesneg fyddde'r disgyblion yng nghwestiwn yn defnyddio unwaith iddynt adael y wers Daearyddiaeth.

Yn ogystal â chwestiynu effeithrwydd hir tymor wobrwyo, mae rhaid hefyd cwestiynu er bod gwobrwyo i weld yn gweithio a phlant blwyddyn wyth, a fyddent yn cael yr un effaith ar ddisgyblion hyn. Mae Ruth Payne (2015, p. 489) wedi ymchwilio i hyn wrth ddarparu holiaduron i boblogaeth gyfan o ddisgyblion o fewn ysgol uwchradd gallu cymysg o 1,100 o ddisgyblion. Ymhelaethwyd canfyddiadau Payne (2015, p. 489) fod gan wobrwon ar ffurf stamp, yn debyg i'r clodi Cymraeg effaith ar ddisgyblion, er enghraifft o ran boblogaidd yr athro wnaeth ddarparu'r wobwr. Er hyn, o ran cyflawni tasgau ac ymddygiad, yn ôl disgyblion blwyddyn 11, nid oedd gan wobrwon stamp effaith sylweddol arnynt. Er hyn, dywed Payne (2015, p. 492) fod gan wobrwon effaith sylweddol ar ddisgyblion ifancach o ran ymddygiad. Yn yr achos yma, fe weithiodd y 'clodi Cymraeg' ar ddisgyblion blwyddyn 8 ond credaf, wrth ystyried disgyblion cyfnod allweddol 4, ni fydd ganddyn nhw effaith o'r fath. O fewn astudiaeth Payne (2015, p. 504), dywed ddisgyblion blwyddyn 11, fe fyddde sgwrs dawel gyda'r athro, nid gwobr yn gymhellant iddynt wella ymddygiad. Yn fy marn i, fe fyddde canlyniadau yn debyg yn yr ysgol arsylwais arno. Wrth ystyried ni fyddde system wobrwyo yn effeithiol i blant hin yr ysgol, fe fydd rhaid i'r ysgol ddatblygu strategaethau gwahanol i hybu'r iaith Gymraeg. Er hyn, erbyn i ddisgyblion cyrraedd ddiwedd ei flynyddoedd ysgol, credaf fyddde twf yn aeddfedrwydd yn golygu fod plant hin yn ymdrechu i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn fwy aml yn yr ysgol.

O fewn ei hastudiaethau, gwelwn nifer o academyddion yn cysylltu systemau wobrwyo gyda chymhellant cynhenid (intrinsic) a chymhellant eithriadol (extrinsic). Gwelwn Judy Cameron (2001, p. 1) yn edrych i'r maes yma. Dywed, wrth ystyried systemau gwobrwyo fod rhaid ystyried, a ydy ddisgyblion yn cyflawni tasgau (siarad Cymraeg yn yr achos yma) am y wobwr ei hun yn lle rhesymau cynhenid, sef gwella sgiliau Cymraeg (Cameron, 2001, p. 1). Mae gwaith Ruth Payne (2015, p. 492) yn awgrymu fyddde ddisgyblion yn ymateb i wobrwon fel ffurf o wella ymddygiad ond eto, wrth ystyried yr iaith Cymraeg, yn anffodus fe fyddde ddisgyblion yn debygol o ddefnyddio'r Saesneg yn fuan ar ôl derbyn y clod. Yn ddelfrydol, fe fyddde ddisgyblion ar bob adeg yn gweithio gyda gwobrwon efo cymhellant cynhenid. Mae Donaldson (2015) ei hun yn pwysleisio pwysigrwydd cymhellant cynhenid, dywed fod athrawon da yn gallu gymhellu ddisgyblion ei hun i lwyddo ac i gyflawni tasgau heriol.

O ganlyniad i'r digwyddiad critigol arsylwais arno, credaf fod adfyfrio yn gwbl berthnasol. Credaf fod yna nifer o gamau fe alle'r athro o fewn y wers ddaearyddiaeth gymryd wrth

symud ymlaen. Gan taw dim ond 10% o ddisgyblion yr ysgol sy'n dod o deuluoedd Cymraeg iaith gyntaf (Estyn, 2019), credaf ei fod anochel bydd yr ysgol yn parhau i wynebu caledion ynglŷn a'r iaith Gymraeg. Yn syml, er bod disgyblion yn mynychu ysgol uwchradd Cymraeg, fydd e'n reddfodol i'r mwyafrif ohonynt ddechrau bob sgwrs drwy gyfrwng y Saesneg. Fe fydd hyn yn wir yn ogystal am ddisgyblion 1 a 2. Wrth gwrs, fe dyle'r ysgol parhau i wthio'r iaith a gan fod yr Athro Donaldson (2015) yn awyddus i weld ffyniant yr iaith Gymraeg, ar y cyfan fe fydd yr iaith yn parhau i fod yn egwyddor holl bwysig yn ysgolion ar draws Chymru.

Wrth ystyried y dasg ysgrifenedig o fewn y dosbarth, fe all nifer o dechnegau dysgu gael i ddefnyddio i sicrhau llwyddiant o ran cyflawni'r dasg y tro nesaf. Fel sonwyd yn atodiad 5, galle rhestr o dermau allweddol wedi bod yn defnyddiol i'r ddisgyblion. Fe fydd restr o'r fath wedi sicrhau bydde ddisgyblion fel rhai 1 a 2 wedi cael y sgaffald perthnasol nid yn unig i ddysgu termau Cymraeg ond yn parhau i ysgrifennu gwaith daearyddol safonol. O fewn ei gwaith ynglŷn a sgaffaldi, dywed Debra Myhill a Pauline Warren (2005, p. 57) fod y National Literacy Strategy yn diffinio sgaffaldi fel strategaeth sydd yn cefnogi disgyblion a hefyd yn adeiladu hyder. Hyder yw'r gair allweddol o fewn y disgrifiad yma. Wrth ystyried disgyblion 1 a 2, roeddent yn gwbl ddi-hyderus yn yr iaith Gymraeg ac o ganlyniad i hyn yn ofyn am gymorth wrth yr athro. Fe fydd restr termau wedi bod yn fan dechrau o ran cyflawni'r dasg a rhoddir iddynt yn y wers, er enghraifft ar y bwrdd gwyn fel y ddelwedd roeddent yn dadansoddi neu ar ffurf bapur, wedi dosbarthu ar draws byrddau'r dosbarth. Wrth ystyried fod y termau wnaeth codi, yn fy marn i yn rhai sylfaenol daearyddiaeth, fe fydd gymorth ychwanegol wedi bod yn ddefnyddiol i rai disgyblion.

Yn ychwanegol, fe alle ffrâm ysgrifennu wedi bod yn ddefnyddiol i rai disgyblion yn y dosbarth. Gan fod y dosbarth yn un gallu cymysg, ni fydd ffrâm ysgrifennu wedi bod yn berthnasol i bawb, ond yn sicr fydd fe wedi bod yn ddefnyddiol i ddisgyblion lefel is megis disgyblion 1 a 2. Mae gan fframiau ysgrifennu gwendidau megis y tueddiad ei fod yn cynhyrchu gwaith tebyg yn misg ddisgyblion ond eto credaf fydd disgyblion 1 a 2 wedi ei weld yn fuddiol. Mae Maureen Lewis a David Wray (2002) yn eiriolwyr fframiau ysgrifennu i ddisgyblion lefel is ac yn ei weld fel techneg i gyflwyno strwythur i waith ysgrifenedig disgyblion. Fe fydd strwythur wedi bod yn ddefnyddiol yma. Fe alle'r rhagolwg o waith ysgrifenedig godi pryder yn nifer o ddisgyblion ar draws bob oedran ac fel yn yr achos yma fe alle ffrâm ysgrifennu wedi codi cymhelliant ddisgyblion 1 a 2.

O ran adfyfrio, credaf fod waith Graham Gibbs hefyd o werth. Yn 1988 Cyhoeddwyd y gylch adfyfrio sy'n galluogi adfyfrio effeithiol (Gibbs, 1988). Mae'r cylch yn cynnwys rhannau ddadansoddi ac 'action plan', ble mae rhaid meddwl i'r dyfodol. Credaf fod waith Gibbs (1988) yn ddefnyddiol wrth ystyried digwyddiadau gritigol gan ei fod yn argymhell meddwl

critigol, ac yn sicrhau ein bod yn meddwl am lwyddiant yn nhermau'r dyfodol. Wrth ystyried datblygiad fy hun, mae gwaith Gibbs yn ddefnyddiol gan fy mod rhaid imi osod targedau i fy hun yn gyson wrth ddatblygu'n broffesiynol.

Mae nifer o awduron yn pwysleisio pwysigrwydd adfyfrio critigol. Dywed Barbara Bissot (2016) fod adfyfrio yn sgil yn holl bwysig wrth ddysgu ac ein bod yn manteisio llawer wth wneud hyn. Cytunaf gyda Bissot, wrth ystyried maes addysg gan fod athrawon ei hun ar bob adeg yn dysgu, mae adfyfrio yn gwbl berthnasol. O ran adfyfrio'n feirniadol, fe all nifer o fodolau gwahanol gael i ddefnyddio. Wrth adfyfrio'n gritigol, dywed rhai rydym yn dysgu'n well oddi wrth brofiadau sy'n broblematic. O fewn ei gwaith mae Osterman a Kottkamp (2004, p. 23) yn dadlau yn nhermau digwyddiadau critigol, fod rhai problematic yn helpu ni osgoi hen arferion a dysgu o ganlyniad iddynt. Yn cyferbynnu a hyn, ynglŷn a digwyddiadau critigol, dywed T. Ghaye (2011, p. 9) ddylwn ganolbwyntio ar brofiadau positif wrth adfyfrio, gan fod canolbwyntio ar profiadau problematic yn ein dal mewn ffurf negyddol o feddwl. Mae yna sail i'r ddau safbwynt modelau adfyfrio yma a chredaf fod gymysgedd o'r ddau yn bosib. Drwy fod yn feddwl agored drwy gydol fy nghyrfa, credaf fyddai'n gallu parhau i adfyfrio'n effeithiol.

Mae astudiaeth i ddigwyddiad critigol wedi galluogi gwaith ymchwil i niferoedd o feysydd gwahanol, megis technegau arsylwi ac adfyfrio. Credaf fod y dull wnes i ddefnyddio wedi sicrhau canfyddiadau diddorol ac wedi rhoi mewnwelediad i lenyddiaeth amrywiol. O ran yr iaith Gymraeg, gwelwn yr obaith fod yr iaith yn mynd i barhau i fod yn hollbwysig o fewn addysg ddisgyblion. Gan fod yr iaith yn chwarae rôl fawr o fewn y cwricwlwm newydd sydd i ddod, gobeithiaf fod niferoedd a all siarad yr iaith yn parhau i dyfu yn ogystal â'r athrawon all ddarparu addysg effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. O fewn yr astudiaeth yma, credaf taw'r adran adfyfrio sydd yn holl bwysig. Wrth ystyried y Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, mae adfyfrio yn ffurf o ddatblygu pedagogy (Llywodraeth Cymru, 2018). Yn nhermau gyrfa fy hun, rydw i ar bob adeg yn ymdrechu i ddatblygu fel addysgwr ac i anelu tuag at y Safonau Proffesiynol. Yn gysylltiedig â'r safonau proffesiynol mae'r gwerthoedd trosfwaol, ble mae'r iaith a diwylliant Gymraeg yn bresennol. O ran datblygiad fy hun, mae'r iaith Gymraeg yn hynod bwysig i fi'n bersonol a cheisiaf gael yr addysgwyr i sylweddoli pwysigrwydd yr iaith yn ogystal. Wrth adfyfrio, chredaf fod yr astudiaeth yma wedi profi'n fuddiol wrth ystyried fy nyfodol, gan fod addysgu yn faes ble mae hunain welliant a datblygiad yn hollol bwysig.

Llyfryddiaeth

Adler, P., a Adler, P. (1994) 'Observation Techniques', yn Denzin, N.K. (ed.) *Handbook of Qualitative Research*. London: Sage.

Bissot, B. (2016) *The Reflective Teaching Guide*. London: Routledge.

Cameron, J. (2001) 'Pervasive Negative Effects of Rewards and Intrinsic Motivation: The Myth Continues', *The Behaviour Analyst*, 24 (1), pp. 1-44.

Cohen, W., Manion, L. a Morrison K. (2017) *Research Methods in Education*. London: Routledge.

Davies, S., (2013) *Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4*. Ar gael: <file:///C:/Users/niall/Downloads/Un%20iaith%20i%20Bawb.pdf> (Cyrchwyd: Hydref 16 2019).

Donaldson. G. (2015). *Successful Futures: An Independent review of curriculum and assessment arrangements in Wales*. Caerdydd: Llywodraeth Cenedlaethol Cymru.

Ghaye, T. (2011) *Teaching and Learning through reflective Practice: A Practical Guide for Postitive Action*. Abingdon: Routledge.

Gibbs, G. (1988) *Learning by Doing: A Guide to Teaching and Learning Methods*. Oxford: Oxford Polytechnic.

Hill, R., (2013) *Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol*. Ar gael: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/130618-delivery-of-education-report-cy.pdf> (Cyrchwyd 17 Hydref 2019)

Kohn, A. (1999) *Punished by Rewards: The Trouble with Gold Stars, Incentive Plans, A's Praise and Other Bribes*. Boston, Mass: Houghton Mifflin.

Lewis, M., a Wray, D. (2002) *Writing Frames: Scaffolding Children's non-fiction writing in a range of genres*, Ar gael http://www.skrivesenteret.no/uploads/files/Lewis_and_Wray.pdf (Cyrchwyd Hydref 20 2019).

Llywodraeth Cymru, (2018) *An Introduction to the professional standards for teaching and leaderships*, Ar Gael: <https://www.discoverteaching.wales/media/12505/introduction-to-the-professional-standards-for-teaching-and-leadership-eng.pdf> (Cyrchwyd Hydref 24 2019)

Llywodraeth Cymru, (2017) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*. Ar gael: https://dera.ioe.ac.uk/30138/4/170926-education-in-wales-cy_Redacted.pdf (Cyrchwyd: 7 Hydref 2019).

Llywodraeth Cymru, 2017) *Welsh in Education: Action Plan 2017-2021*. Ar gael:
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/welsh-in-education-action-plan-2017%E2%80%9321.pdf> (Cyrchwyd: 9 Hydref 2019).

Myhill, D., a Warren, P. (2005) 'Scaffolds or straitjackets? Critical moments in classroom discourse', *Educational Review*, 57 (1), pp. 55-69.

Osterman, K., a Kottkamp R. (2004) *Reflective Practice for Educators*. Thousand Oaks, CA: Corwin Press.

Oswald, D. (2014) 'Handling the Hawthorne Effect: The challenges surrounding a participant observer', *Review of Social Studies*, 1 (1), pp. 53-73.

Payne, R. (2015) 'Using rewards and sanctions in the classroom: pupils' perceptions of their own responses to current behaviour management strategies', *Educational Review*, 67 (4), pp. 483-504.

Shreeve, A. (2006) 'Student Perceptions of rewards and sanctions', *Pedagogy, Culture & Society*, 10 (2), pp. 239-256.

Tripp, D. (1993) *Critical Incidents in Teaching: Critical Incidents in Teaching*. London: Routledge.

My Local School, 2019. Adroddiad ar Ysgol X [Ar-lein]

Estyn (2019), *Adroddiad Ysgol X*.

Ysgol X (2019), *Prosbectws yr Ysgol*.

Atodiadau

1

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 2/10/2019
Manylion y wers: Gwers Daearyddiaeth Blwyddyn 8.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Ar ddechrau'r wers, roedd y disgyblion i weld ar dasg ond wrth i'r wers parhau, fe ddechreuodd natur siaradus yn fisg y disgyblion. Er ni chwblhaodd y disgyblion y dasg i gyd a rhoddir gan yr athro, ar y cyfan wnaethant nhw ddangos ymddygiad gweithgar.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Wrth osod y dasg i'r disgyblion ar ddechrau'r wers, fe amlinellodd yr athro ei nodau ac amcanion. Ar ddiwedd y wers, unwaith eto fe wnaeth yr athro gyfarwyddo at y nodau yma unwaith eto wrth gwestiynu dealltwriaeth y disgyblion.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Fe ddisgrifiodd yr athro'r dasg yn fwy nag unwaith, i sicrhau fod y disgyblion yn deall. Er bod mwyafrif o'r disgyblion yn glir am y dasg, fe gododd broblemau wrth i gwbl o ddisgyblion weld e'n anodd mynegi ei hun drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ddiwedd y wers, dim ond ychydig o blant oedd wedi cwblhau'r dasg.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Roedd y dasg ysgrifenedig a rhoddir gan yr athro yn un heriol iawn, yn meddwl fod pawb yn y dosbarth yn cael i herio. Ni roddodd yr athro lawer o gymorth i'r disgyblion i ddechrau ond pan sylweddolodd fod ddisgyblion yn wynebu trafferthion, fe dynnodd sylw'r holl ddisgyblion i sicrhau ei fod yn deall y dasg.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Gan fod y dasg yn cael i gynnal o dan gwbl ddistawrwydd, i asesu'r plant, ar adegau fe ofynnodd yr athro cwestiynau wrth ymdrin a'r dechneg 'llaw i fyny', i sicrhau fod disgyblion ddim yn gwaeddu allan ac yn torri'r awyrgylch dawel o fewn y dosbarth. Ar ddiwedd y wers, fe barhaodd yr athro i gwestiynu drwy ailadrodd nodau'r wers a hefyd ofyn am y sgiliau newydd a ddatblygodd y disgyblion drwy gydol y wers.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Fe ddigwyddodd y digwyddiad o fewn wers Daearyddiaeth i ddisgyblion flwyddyn wyth, gallu cymysg. Yn syth sylweddolais fod niferoedd o disgyblion o fewn y dosbarth yn ddefnyddio'r iaith Saesneg ac fe barhaodd problemau ieithyddol drwy gydol y wers. fe welais dau ddisgybl (byddaf yn alw rhain yn ddisgyblion 1 a 2) yn siarad bob gair drwy gyfrwng y Saesneg ac wynebu caledion yn fynegu ei hun yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn aml gofynnodd disgybl 1 am gymorth o'r athro yn ymwneud a thermau perthnasol Cymraeg, cyn i'r athro ei hun tynnu pawb yn y dosbarth oddi ar y dasg i fynd trwyddo dermau allweddol Cymraeg. Fe wnaeth yr esboniad yma gymryd ychydig o amser yn meddwl, erbyn diwedd y wers dim ond rhif cyfyng o ddisgyblion wnaeth gyflawni'r dasg yn llawn. Er hyn fe wnaeth yr athro adnabod mantais i'w esboniad, fod y disgyblion wedi ymgyfarwyddo a thermau newydd Cymraeg. O ganlyniad i hyn, fe ddarparwyd yr athro sticeri 'clodi Cymraeg', yn adnabod, er ni gyflawnodd nifer o'r ddisgyblion y tasg, fe wnaethent ddatblygu sgiliau iaith yn ystod y gwrs.

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26-9-19
Manylion y wers: Gwers Dylunio a Thechnoleg Blwyddyn 8
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Ar y cyfan, fe wnaeth y dosbarth canolbwyntio ar ddysgu. Roedd y dosbarth yn un llai o faint, ffactor a all arweinio at ddosbarth gweithiol. Gwers ddwbwl oedd y sesiwn (1 awr 40 munud) a chredaf fod hyn wedi arweinio at rhai disgyblion yn colli diddordeb erbyn diwedd yr ail sesiwn. Fe ddechreuodd y dosbarth droi'n siaradus ac fe wnaeth rhai eraill cam-ddefnyddio offer.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Roedd yna nod clir i'r wers. Ar ddechrau'r wers fe esboniodd yr athro ei nod ac amcanion. Drwy'r ymarferion ymarferon a gynhaliwyd, fe gyrhaeddodd y disgyblion yr amcanion. Ar ddiwedd y wers, fe ail-atgoffodd yr athro'r disgyblion am y nodau yma, cyn sôn am ei lwyddiant.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Ydyn. Gan fod y wers yn cynnwys ymarferion ymarferol, ar ôl casglu'r disgyblion o gwmpas un bwrdd, fe wrthdystio'r athro'r dasg fwy nag unwaith. Fe wnaeth hyn sicrhau fod y disgyblion yn gwbl glir am beth roedd rhaid iddynt wneud.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Gan fod gwybodaeth newydd yn cael i gyflwyno, yn wreiddiol, fe gafodd bob disgybl ei herio. O fewn grwpiau'r ymarferion ymarferol, roedd e'n glir fod rhai disgyblion yn cymryd drostio ac yn wneud fwyafrif o'r gwaith ei hun. O ganlyniad i hun fe gafodd rhai disgyblion i adael allan wrth i aelodau eraill y grŵp cyflawni tasgau'r dosbarth.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Ar ddechrau'r wers, fe gwestiynodd yr athro'r disgyblion ynglŷn a'r wers ddiwethaf i geisio atgoffa'r wybodaeth a ddysgwyd. Yn ystod y wers yn ychwanegol, fe ddefnyddiodd yr athro byrddau gwyn wrth gwestiynu, ac i sicrhau ei ddealltwriaeth. Wrth i'r ymarferion ymarferol parhau, crwydrodd yr athro o gwmpas y byrddau gwahanol i sicrhau fod y disgyblion ar dasg ac yn dangos cwbl gweithgarwch. Ar

ddiwedd y wers, fe wnaeth yr athro sôn unwaith eto am amcanion y wers, a hefyd gofyn am beth ddysgodd y disgyblion yn ystod y ddau sesiwn.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Yn ystod y wers, sylweddolais fod dau ddisgybl aflonyddgar yn eistedd ar fwrdd blaen y dosbarth. Sylweddolais hyn wrth iddynt gamddefnyddio'r offer a ddarparwyd gan yr athro ar ddechrau'r wers. Fe barhaodd hyn wrth iddynt gamddefnyddio'r byrddau gwyn drwy arlunio pethau anaddas arnynt. Wrth l'r athro eistedd ar y bwrdd yma, fel byddwch yn erfyn, fe wellodd agwedd y ddau ddisgybl, ond wrth i ddisgyblion eraill ofyn am gymorth ar fyrddau gwahanol, fe barhaodd y disgyblion i darfu ac effeithio ar addysg aelodau eraill o'i grŵp.

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26-9-2019
Manylion y wers: Gwers Gwyddoniaeth Blwyddyn 8.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Ar y cyfan, roedd ymddygiad da gan aelodau'r dosbarth. Ar adegau roedd rhaid i'r athro ofyn am dawelwch o ganlyniad i ambell i ddisgybl siaradus wrth iddynt darfu. Er hyn, fe gyflawnwyd y disgyblion y tasgau a rhoddir gan yr athro.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Fe amlinellodd yr athro nod ac amcanion y wers yn glir ar ddechrau'r sesiwn. Gan fod gan y disgyblion tasg asesu yn y wers nesaf, gwelwn elfennau paratoi o hynny yma. Erbyn diwedd y wers, fe ymddangosodd fod y disgyblion yn barod i symud ymlaen i'r dasg asesu yma.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Roedd y disgyblion yn gwbl glir ar beth roedd rhaid iddynt gyflawni o fewn y wers. Roedd y tasgau a ddarparir gan yr athro yn gwbl syml, yn bennaf copio wybodaeth bant o'r bwrdd ar flaen y dosbarth oedd y disgyblion. I lwyddo, roedd rhaid sicrhau ei fod yn cofnodi'r holl wybodaeth roedd yr athro yn bwydo iddynt.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) O ganlyniad i natur syml y wers, roedd e'n hawdd i'r disgyblion ddilyn. Er hyn fe gododd broblemau i'r disgyblion oedd yn eistedd yng nghefn y dosbarth gan ei fod ddim yn gallu gweld y bwrdd blaen yn gyfan. O ganlyniad i hyn, roedd rhaid iddynt symud i flaen y dosbarth i gopio ychydig o wybodaeth. Yn anffodus, nid oedd rhaid i'r disgyblion wneud llawer o feddwl gan fod yr athro yn bwydo'r holl wybodaeth iddynt.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Yn ystod y wers, fe ddefnyddiodd yr athro'r dechneg o gwestiynu'r dysgwyr wrth iddo ailadrodd y wybodaeth a ddarparwyd. Yn aml, fe ddefnyddiodd yr athro'r cwestiwn 'ydy pawb yn deall?' cyn symud ymlaen i sleid nesaf y pwynt pŵer, ble parhaodd y disgyblion i gopio'r wybodaeth o'i flaen. Yn aml, roedd yr athro yn ymddiheuro fod e'n symud trwy'r sleidiau yn gyflym, ond roedd e'n mynnu fod rhaid symud ymlaen i'r dasg asesu yn y wers nesaf.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Gwelais dechneg dysgu'r athro fel achos beirniadol. Gan fod y disgyblion yn cael i fwydo'r holl wybodaeth, fe allwn ofyn, a wnaethant nhw addysgu unrhywbeth o gwbl? Allwn dybio fod y disgyblion yn weld ei thasg fel un copio gwybodaeth yn unig, yn meddwl ni oeddent yn feddwl am gynnwys y wybodaeth roeddent yn derbyn. Yn ogystal a hyn, ar ddiwedd y wers roedd yr athro yng nglŵm a sgwrs cwbl amherthnasol gyda rhai disgyblion yn eistedd ar flaen y dosbarth. Roedd hyn hefyd yn amlinellu natur ddheriol y wers.

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 2/10/2019
Manylion y wers: Gwers Addysg Gorfforol Blwyddyn 8
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Ar y cyfan, fe wnaeth y dysgwyr canolbwyntio ar ddysgu. Er hyn roedd ambell i ddisgybl yn siaradus. O ganlyniad i hyn, yn aml roedd rhaid i'r athro ailddweud cyfarwyddiadau gan fod rhai disgyblion yn tarfu
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Cyn mynychu i'r cae ble gynhaliwyd y wers, fe soniodd yr athro am nod y wers a'r sgiliau byddent yn ceisio gwella yn ystod y sesiwn. Ar ddiwedd y wers, fe ailadroddodd yr athro'r nodau yma cyn symud ymlaen i sôn am ba sgiliau fydd y disgyblion yn ceisio gwella yn y wers nesaf.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Gan fod yr athro yn ailadrodd cyfarwyddiadau, roedd y disgyblion yn glir am beth roedd rhaid iddynt wneud. O les i'r disgyblion yn ogystal oedd y ffaith bod yr athro ei hun yn cymryd rhan yn y gweithgareddau i sicrhau fod pob disgybl yn glir am beth roedd rhaid iddynt wneud. Pan sylweddolodd yr athro bod rhai disgyblion yn ansicr am ambell i weithgaredd, fe ail ddangosodd y gweithgaredd.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Gan fod y disgyblion yn wneud llawer o weithgareddau gwahanol, credaf fod y disgyblion i gyd yn cael i herio. Er hyn, ni oedd gan bedwar aelod o'r dosbarth ei chit ymarfer corf. O ganlyniad i hyn, ni chafodd y disgyblion yma i herio o gwbl gan ei fod ddim ond yn gwyllo o'r ochr.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Yn ystod y gweithgareddau, fe gerddodd yr athro o gwmpas grwpiau gwahanol i sicrhau oeddent yn dilyn ei gyfarwyddiadau ynglŷn a'r gweithgaredd. Fe ofynnodd i ambell grŵp i ddangos y sgiliau roeddent wedi dysgu i weddill y dosbarth. Yn ychwanegol, ar ddiwedd y wers fe ofynnodd yr athro unwaith eto pa sgiliau a ddatblygwyd yn ystod y wers, a pa sgiliau fydd angen weithio arno.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Fe gymerodd y wers yma amser hyr i ddechrau. Gan fod y wers ar ddechrau'r dydd fe darfodd gwasanaeth a gweithgareddau bore arni, yn meddwl bod y disgyblion yn hwyr yn cyrraedd yn y lle gyntaf. Fe wastraffwyd fwy o amser gan fod y disgyblion yn cymeryd llawer o amser i newid i'w citiau ymarfer corff. Ar dair adeg roedd rhaid i'r athro daro ar ddrws yr ystafell newid i sicrhau fod y bechgyn yn brysio, gan ei fod eisiau ddechrau'r wers.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 2/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Daearyddiaeth (Cymreictod)

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	I ddechrau, synnais fod gyn-lleied o ddisgyblion yn gwybod termau daearyddol yn y Gymraeg. Teimlais yn well ar ddiwedd y wers, er ni chyflawnodd nifer o'r disgyblion y dasg, megis disgyblion 1 a 2, erbyn diwedd y wers roeddent wedi gwella'i sgiliau ieithyddol wrth iddynt ddysgu'r eirfa berthnasol i'r dasg.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	Fe wnaeth y defnydd o'r iaith Saesneg tarfu ar nodau ac amcanion yr athro gan fod rhaid iddo dynnu pawb oddi ar y dasg i fynd drwyddo eirfa berthnasol Cymraeg. Er ni orffennodd y dysgu yn yr achos yma, fe fydd rhaid i'r disgyblion parhau a'r dasg yn ystod y wers nesaf.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	Fe fydd e'n ddefnyddiol iawn i'r disgyblion parhau i ymdrechu i wella ei sgiliau Cymraeg ar draws bob pwnc. Trwy wneud hyn, fe fydd ei sgiliau iaith yn parhau i wella yn meddwl cynyddiad yn safon ei gwaith ar draws yr ysgol gyfan. O ran achos yr elfen siomedig bwysicaf, fe ddaw ddefnydd y disgyblion o'r iaith Saesneg o'r ffaith bod y mwyafrif ohonynt yn dod o gartrefi ble mae'r iaith Gymraeg ddim yn bodoli.
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiau siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	Wrth ystyried y dasg ysgrifenedig o fewn y dosbarth, fe all nifer o dechnegau dysgu gael i ddefnyddio i sicrhau llwyddiant o ran cyflawni'r dasg y tro nesaf. Yn gyntaf, galle rhestr o dermau allweddol wedi bod yn ddefnyddiol i'r disgyblion. Fe fydd restr o'r fath wedi sicrhau bydde ddisgyblion fel rhai 1 a 2 wedi cael y sgaffald perthnasol nid yn unig i ddysgu termau Cymraeg ond yn parhau i ysgrifennu gwaith daearyddol safonol. Fe fydd restr termau wedi bod yn fan dechrau o ran cyflawni'r dasg a rhoddir iddynt yn y wers, er enghraifft ar y bwrdd gwyn fel y ddelwedd roeddent yn dadansoddi neu ar ffurf bapur, wedi dosbarthu ar draws byrddau'r dosbarth.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/9/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Ymddygiad- Ggwera Dylunio a Thechnoleg

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Teimlaf yn rhwystredig gan fod y ddau ddisgybl yng nghwestiwn wedi ymddwyn yn well yng ngwersi eraill yn ystod y dydd. Gan fy mod wedi dilyn yr un dosbarth o gwmpas trwy'r dydd, roedd e hefyd yn siomedig fod y ddau ddisgybl wedi dechrau tarfu erbyn diwedd y dydd.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	Wrth ystyried y digwyddiad yma, yn siomedig oedd y ffaith bod y ddau ddisgybl yn ymharu ar addysg ddisgyblion eraill ar y bwrdd. Gan fod y wers yn un ymarferol, a bod y ddau ddisgybl yn gamdrin ag offer, fe gollodd ddisgyblion eraill o fewn y grŵp y siawns i wneud y fwyaf o'r wers hynod o ddiddorol, wers roedd ddisgyblion eraill yn mwynhau.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysigaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	Gan fod mwyafrif i'r dosbarth yn mwynhau'r gweithgareddau ymarferol, fe dyle'r athro parhau i gyflwyno gweithgareddau o'r fath. O ran y ddau ddisgybl yn gwestiwn, fe dyle'r athro parhau i arsylwi arnynt a'i chwestiynu i sicrhau ei fod ar dasg ar bob adeg. O ran defnydd o'r byrddau gwyn, mae'n ffurf wahanol o asesu ar gyfer dysgu, ac ar y cyfan roedd y disgyblion yn ymateb yn bositif iddynt.
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiau siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	I ddechrau, dewis arall yn lle arsylwi'r ddau ddisgybl fydd i wahanu nhw. O ganlyniad i hyn, fe allent ddechrau canolbwyntio ar y dasg yn lle tarfu gan ei fod yng nghwmni ei gilydd. Ar ôl bob gweithgaredd ymarferol, dyle'r athro symud yr offer oddi wrth fyrddau'r disgyblion. O ganlyniad i hyn, ni fydd yr offer yn tynnu sylw o'r dasg bresennol. Yn sicr fydd rhaid i'r athro symud y byrddau gwyn ar ôl ei ddefnydd gan fod y disgyblion yn camddefnyddio nhw yn bennaf.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/9/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Gwers Gwyddoniaeth (athro yn bwydo wybodaeth)

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Teimlaf braidd yn siomedig gan fod rhaid cwestiynu, a dysgodd y disgyblion y wybodaeth roedd yr athro yn bwydo iddynt? Yn ychwanegol, teimlais braidd yn rhwystredig i'r disgyblion gan fod yr athro gwir yn rhuthro drwy'n pwynt pŵer, yn meddwl bod rhai disgyblion yn weld e'n anodd dilyn.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	Fe gafodd yr achos effaith fawr yng nghyd-destun y dysgu. Roedd y wybodaeth a rhannir gan yr athro yn hollbwysig gan ei fod yn bwysig wrth ystyried y dasg asesu oedd i ddod, ond gan fod yr athro yn bwydo'r wybodaeth, ni chafodd y disgyblion y siawns i ddatblygu ei wybodaeth wyddonol.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	Gan fod y wybodaeth a rhannir gan yr athro yn bwysig, fe alle cynnwys y wers aros yr un peth.

Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	Fe alle'r athro wedi rhoi amser i'r disgyblion gweithio allan y Gwaith ei hun, yn lle bwydo'r holl wybodaeth iddynt. Yn ogystal a hyn, ni dyle'r athro fod yng nglwm a sgysiau amherthnasol yn ystod y wers gan ei fod yn tarfu ar y dasg a osodwyd ac yn gweithio yn erbyn cyfarwyddiadau maent wedi gosod. Yn olaf, fe alle'r athro wedi printio'r wybodaeth oedd ar y pwynt pŵer gan fod niferoedd yng nghefn y dosbarth yn ei weld e'n anodd gweld yr holl wybodaeth o'i flaen.
---	--

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 2/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Gwers Ymarfer Corff (Gwastraff Amser)

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Roeddwn yn teimlo'n rhwystredig dros yr athro ymarfer corff gan fod llawer o amser yn cael i wastraffu yn ystod y sesiwn. Mae gwasanaeth boreol allan o reolaeth yr athro yn meddwl mai'n debygol fod y broblem yma yn mynd i barhau.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	Ynglŷn a'r profiadau dysgu, gan fod y wers wedi dechrau'n hwyr, mae'r dysgwyr yn colli amser addysg. Oherwydd hyn, efallai fydd yn rhaid i'r athro newid ei nodau ac amcanion gwreiddiol o ganlyniad i'r amser cyfyng ar gael iddo. Yn ychwanegol, fe fyddde'r disgyblion yn colli allan ar y siawns i wella'i sgiliau o fewn gwersi gan fod amser yn cael i golli.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	Fe dyle frwdfrydedd yr athro aros yr un peth. Er ar adegau tarfwyd ambell i ddisgybl, ar y cyfan, ymatebodd y disgyblion yn dda. Roedd frwdfrydedd yr athro hefyd yn glir gan ei fod yn awyddus i ddechrau'r wers, yn enwedig pan roedd y bechgyn yn cymeryd amser i newid i'w citiau ymarfer corff.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiau siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	Fe fyddde well prydlondeb gan y disgyblion yn fantais enfawr i'r athro yn enwedig. O ran gwasanaethau, fe alle sgwrs rhwng athrawon profi'n fuddiol. Os bydde wasanaethau yn gorffen ar amser, fe fydd e'n fantais nid yn unig i'r athrawon ymarfer corff ond i staff holl adrannau'r ysgol, wrth iddynt geisio sicrhau fod c yn lleied o amser dysgu yn cael i golli.